

Cyfrifoldebau arweinwyr teithiau



Bydd angen y wybodaeth ganlynol ar gyfer y rhaglen:

Dyddiad:

Man cyfarfod - gyda chyfeiriad grid: (gwybodaeth am barcio a thoiledau'n ddefnyddiol)

Amser cyfarfod: **Amser cychwyn ar y daith:**

Teitl y daith:

Disgrifiad byr: (gydag amcangyfrif o bellter ac esgyniad, os yn bosib):

Manylion cysylltu: (ebost / rhif(au) ffôn):

Dyma ganllawiau i atgoffa arweinwyr o arfer da, ac anogir pawb i'w dilyn.

1. Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r daith a'r amser a gymerir i gwblhau cymalau ohoni o dan yr amodau a ddisgwyllir.
2. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y rhagolygon tywydd ar gyfer y diwrnod.
3. Byddwch yn fodlon i aelodau gysylltu â chi o flaen llaw (ffôn/ebost) i roi gwybod eu bod am ymuno â'r daith neu os ydynt angen mwy o wybodaeth cyn penderfynu.
4. Ystyriwch benodi ail arweinydd os yw'r criw sy'n debyg o ymuno â'r daith yn fwy na 15 mewn nifer.
5. Yn ystod y gaeaf, neu os oes tebygolrwydd o dywydd gwael, trefnwch bod cysgodfan grŵp ar gael a chariwch hi yn eich sach cefn. Darperir rhestr o aelodau fydd â chysgodfan yn eu meddiant.
6. Dylech gario map a chwmpawd a bod yn gyfarwydd â'u defnyddio.
7. Os oes gennych ffôn lôn clyfar, lawrlwythwch GPS a map OS/viewfinder o'r ardal dan sylw, a all eich helpu i fod yn sicr o leoliad a chyfeirnod grid pe bae angen.
8. Cofrestrwch eich ffôn lôn efo'r gwasanaethau argyfwng, megis y Tîm Achub, er mwyn gallu anfon neges destun atynt pe bae angen drwy anfon y neges 'Register' at 999
9. Rhowch groeso i'r cerddwyr ar y diwrnod, yn arbennig unrhyw aelod newydd, a chyflwynwch fraslun o'r daith dan sylw.
10. Sicrhewch fod gennych restr o enwau pawb, gyda rhif ffôn cyswllt argyfwng ar gyfer pob un. Gallwch gofnodi'r rhifau hyn pan fydd aelodau'n cysylltu â chi ymlaen llaw, fel nad oes gormod i'w cofnodi ar fore'r daith.
11. Gofynwch i gerddwr profiadol fod wrth ben cynffon y criw i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl neu'n mynd ar goll.
12. Byddwch yn barod i addasu'r daith yn ôl yr amgylchiadau ar y diwrnod, megis tywydd gwael.
13. Eglurwch wrth y criw ei bod yn bwysig cadw'n eitha' agos /o fewn golwg i'w gilydd, yn arbennig mewn tywydd garw a phan fo niwl.
14. Gosodwch arweiniad o ran cyflymdra gan geisio sicrhau bod pawb yn gyfforddus a nad oes rhai'n rhy bell yn y blaen nac yn y cefn.
15. Cadwch lygad ar gyd-gerddwyr yn ystod y daith a holwch neu cynigiwch gymorth yn ôl yr angen.
16. Penderfynwch pryd i oedi am banded/cinio/gorffwys gan gadw llygad ar y criw a'r hyn fyddai o fudd iddynt.
17. Ysgrifennwch adroddiad wedi'r daith a'i ebestio at erylowain@gmail.com neu at iolo.apgwynn@gmx.com (ar gyfer y wefan) gyda ffotograffau hefyd os yn bosib (fel arfer mae camera gan fwy nac un aelod).

Mae yswiriant llawn wrth gefn i ddiogelu arweinwyr rhag hawliadau, wedi ei drefnu drwy'r Cyngor Mynydda Prydeinig.

Os nad ydych yn hyderus i arwain eich hun, beth am ofyn i gyfaill gyd-arwain efo chi neu cysylltwch ag erylowain@gmail.com / 01690 760335 a gallwn drefnu bod aelod profiadol ar gael i gysgodi/cynorthwyo. Ac fel y gwyr pawb sydd yn gyfarwydd â theithiau'r clwb, mae pawb yn fwy na pharod i helpu yn ôl yr angen.